# CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH**
**28 Chwefror 2023, Trwy Zoom**
**am 7:00 y.h.**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng A Wyn, A Williams, E Williams, C McGregor, R Hughes, S Jones, H Davies, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc). | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng W Williams, P Ellis. | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng C McGregor. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| **3** | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 17.01.23. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng H Davies yn cynnig a Cyng S Jones yn eilio. |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Mynwent Llanddyfnan** (tap) Dywedodd y Cyng H Davies fod y tap wedi ei drwsio gan Aled Crewdson |
| **4.2** | **Llwybrau cyhoeddus** - Cytunwyd dechrau gyda thorri llwybr 23/021/1- o'r Capel i Gefn Poeth Bach. Bydd y Clerc yn gofyn i gontractwr y cyngor dorri'r llwybr. |
| **5** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **5.1** | FPL/2023/29 Cais llawn ar gyfer cael gwared a'r cynhwysydd presennol ar gyfer storio cig prosesu a chodi adeilad newydd torri a pharatoi gyda siop ategol ynghyd â gwaith cysylltiedig yn Dolmeinir, Rhosmeirch – dim sylwadau |
| **5.2** | FPL/2023/54 - Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw sied amaethyddol ar gyfer cadw gadw anifeiliaid yn Plas Llanfihangel, Capel Coch – dim sylwadau |
| | **Priffyrdd** |
| **5.3** | Cyflwr ffyrdd - Darllenodd y Clerc e-bost gan yr Adran Priffyrdd yn dweud eu bod yn gweithio ar y broblem llifogydd ger yr hen siop. Hefyd, nid ydynt yn gallu dod o hyd i unrhyw broblemau ar y llwybr ger Bodlondeb - Hafan Deg. Fodd bynnag, byddant yn clirio unrhyw ddraeniau cyfagos. |
| | Llofnod…….Cadeirydd 21.03.23 |

| | |
|---|---|
| | **Adran Wâst** |
| **5.4** | Biffa - Yn dilyn cwyn am gasgliadau ailgylchu, darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir: *Diolch yn fawr am eich e-bost. Mae'n wir ddrwg gennyf glywed am y golwg sydd yn cael ei adael yn Nhalwrn. Gallaf gadarnhau bod yna gyfarwyddiadau wedi cael eu gyrru I Biffa I geisio sicrhau bod pob adran o'r cerbydau wedi cau wrth deithio drwy'r ardal.* |
| | **Polisi** |
| **5.5** | Cynllun LlesiantGwynedd a Môn - Cwblhawyd yr holiadur ar-lein yn ystod y cyfarfod |
| **6** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **6.1** | Contract torri gwair - Mae'r Clerc wedi derbyn 1 tendr ar gyfer tymor 2023 gan Rhys Williams am £1249.00. Cytunwyd i dderbyn y tendr. |
| **6.2** | **Fforwm Pobl Hŷn** – Mae Ysgrifennydd Neuadd Talwrn wedi derbyn gwahoddiad i gynnal cyfarfod o'r Fforwm yn neuadd y pentref – gwybodaeth yn unig. |
| **7** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu: |
| **7.1** | Planning Aid Wales £150.00 (Hyfforddiant) |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Arwyddion yn y gilfan ger y sgwâr, Talwrn - Dywedodd y Clerc y bydd y Cyngor Sir yn gosod rhain yn eu lle cyn gynted a phosib |
| **8.2** | Wagen ceffylau yn parcio yn y gilfan - Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir |
| **8.3** | Dŵr yn casglu rhwng Bodlondeb – Hafan Deg – gweler 5.3 |
| **8.4** | Cwlfert ar lôn yr Ysgol - Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir |
| **8.5** | Llifogydd ger yr Hen Siop – gweler 5.3 |
| **8.6** | Biffa – gweler 5.4 |
| **9** | **MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF** |
| **9.1** | Unrhyw adborth gan y Cyngor Sir ynglŷn â system unffordd arfaethedig o amgylch yr ysgol? |
| **9.2** | Baw ci ar lôn yr ysgol |
| | Llofnod…….Cadeirydd 21.03.23 |